No.

CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorydd B.E. Brooks (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, G. John, S. Sivagnanam, M.R. Wilkinson, E. Williams a M.R. Wilson

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr I. Buckley, H.C. Hamilton a Dr. I.J. Johnson.

C31 CYHOEDDIAD -

Croesawodd yr Arweinydd bawb i gyfarfod y Cabinet gan atgoffa Aelodau a Swyddogion fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio a'i gofnodi'n fyw ac y byddai'n cael ei lanlwytho i wefan Cyngor Bro Morgannwg cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfod.

Dywedodd y byddai'r cyfarfod yn cwmpasu rhaglen waith y Cabinet, canolfannau hamdden, gosod wyneb newydd ar y briffordd, y Cynllun Datblygu Lleol a monitro cynnydd y Cyngor wrth symud ymlaen.

C32 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Nodwyd nad oedd y Cynghorydd Birch yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod gan ei bod wedi bod yn mynychu'r Cinio Mawr yn Ysgol y Deri ond y byddai'n ymuno â'r cyfarfod cyn gynted â phosibl. Ymddiheurodd yr Arweinyddes i holl ddisgyblion a staff Ysgol y Deri gan y byddai wedi hoffi bod wedi mynychu ei hun, ond roedd ymrwymiadau'r dyddiadur wedi ymyrryd.

C33 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mehefin, 2022 fel cofnod cywir.

C34 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

C35 CYTUNDEB RHEOLI HAMDDEN – ADRODDIAD PERFFORMIAD BLWYDDYN 9 (CYF)

Cyflwynwyd cyfeiriad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o 13Mehefin, 2022.

Roedd y Cynghorydd John wedi mynychu'r cyfarfod a dywedodd fod yr adroddiad a ysgrifennwyd ym mis Gorffennaf 2021 wedi'i gyfeirio at y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol ac yna ymlaen i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Daeth adroddiad Archwilio Cymru i'r casgliad bod y Cyngor wedi cynnal ei ddarpariaeth hamdden a'i fod yn derbyn incwm o'i gontract gyda Legacy Leisure Limited, ond tan yn ddiweddar, nid oedd ganddo strategaeth i lunio'r gwasanaeth a bod cyfle sylweddol i'r Cyngor gymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy a chanolbwyntio ar gyflawni ei amcanion lles drwy ei gontract gyda Legacy Leisure. Roedd y Cyngor wedi cryfhau'r ffordd y mae'n rheoli'r contract, ond roedd lle i wella'r trefniadau i sicrhau ei fod yn cyflawni gwerth am arian.

Ymateb y Cyngor i adroddiad Archwilio Cymru oedd bod y Cyngor yn parhau i weithio i ymateb i adolygiad Archwilio Cymru yn adroddiad Gwasanaethau Hamdden Allanol y Cyngor, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021. Heriodd yr adroddiad y Cyngor i sicrhau ei hun bod y contract yn darparu gwerth am arian ac yn cryfhau'r broses o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ymestyn y contract.

Roedd swyddogion wedi gallu dangos bod y contract presennol yn rhoi gwerth am arian drwy gynnal ymarfer cymharol yn erbyn pob Cyngor arall yng Nghymru. Fodd bynnag, cydnabu'r Cyngor fod angen gwneud rhagor o waith i gryfhau'r broses o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Gofynnodd y Cynghorydd John am i'r Cabinet nodi penderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac aros am adroddiad Blwyddyn 10, a oedd bellach i fod i gael ei gyhoeddi yn yr hydref.

Dywedodd yr Arweinydd ei fod wedi bod yn gontract llwyddiannus a oedd wedi caniatáu i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau hamdden ym Mro Morgannwg, a oedd wedi darparu incwm yn ôl i'r Cyngor ond ei fod am gyflawni mwy a chysylltu â'r Strategaeth Hamdden a Byw'n Iach.

Wedi ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD -

(1) Y DYLID nodi penderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

(2) Y BYDDAI'r Cabinet yn aros am Adroddiad Perfformiad Blwyddyn 10.

<u>Y rheswm dros y penderfyniadau</u>

(1-2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C36 RHAGLENNI GWAITH CHWARTEROL Y CABINET – EBRILL I MEHEFIN 2022 A GORFFENNAF I MEDI 2022 (AG/BA) (CRAFFU – DIM) -

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet ac unrhyw sylwadau ynglŷn â'r diweddariad cynnydd ar gyfer y chwarter Ebrill i Fehefin 2022, yn ogystal â chymeradwyaeth y Cabinet i Flaenraglen Waith Chwarterol y Cabinet wedi'i diweddaru o fis Gorffennaf i fis Medi 2022.

Nododd yr Arweinyddes yr adroddiadau yn Atodiadau 1 a 2 a oedd wedi llithro neu nad oedd eu hangen mwyach ar gyfer y ddau gyfnod.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Mae'r Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) CYTUNO ar y diweddariadau i Raglen Waith Chwarterol y Cabinet ar gyfer y cyfnod Ebrill i Fehefin 2022 ynghlwm yn Atodiad 1.

(2) CYMERADWYO Rhaglen Waith Chwarterol y Cabinet Gorffennaf i Fedi 2022 sydd yn Atodiad 2.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Monitro cynnydd.

(2) Cymeradwyo'r Rhaglen Waith ar gyfer y cyfnod mis Gorffennaf i fis Medi 2022.

C37 CYNGOR BRO MORGANNWG: CALENDR PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2022/23 (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) -

Cyflwynodd yr adroddiad Galendr Perfformiad Blynyddol Bro Morgannwg ar gyfer 2022/23 a oedd yn amlinellu'r cynlluniau a'r adroddiadau allweddol a fyddai'n cael eu hystyried gan Aelodau drwy gydol y flwyddyn. Amlinellodd yr adroddiad hefyd sut yr oedd y Cyngor yn bwriadu ymgysylltu â'r garfan newydd o Aelodau etholedig wrth lunio'r prosesau, y cynlluniau allweddol a'r adroddiadau sy'n cyd-fynd â'r Calendr Perfformiad Blynyddol er mwyn galluogi'r Cyngor i fodloni gofynion perfformiad newydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Deddf LILE) a chyfrannu at nodau cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (LlCD).

Yr amserlen ar gyfer cynhyrchu adroddiad hunanasesu cyntaf y Cyngor dan ddarpariaethau perfformiad newydd y Ddeddf LILE yn cyd-fynd â'r trefniadau rheoli perfformiad presennol a byddai'n dwyn ynghyd fewnwelediadau allweddol sy'n gysylltiedig â pherfformiad a llywodraethu drwy gydol y flwyddyn mewn dyfarniad cryno ar ba mor dda yr oedd y Cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad. Byddai'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2022 gyda chopïau'n

cael eu darparu i Archwilydd Cyffredinol Cymru, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ('Estyn') a Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn unol â'r canllawiau statudol.

Roedd Atodiad A i'r adroddiad yn cynnig dull o ymgysylltu ag Aelodau ar Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor drwy'r Calendr Perfformiad Blynyddol o weithgareddau er mwyn datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth a chryfhau eu hymwneud â llunio a mireinio'r cynlluniau, adroddiadau a phrosesau allweddol a fyddai'n eu cefnogi yn eu rôl allweddol o asesu a oedd y Cyngor yn cyflawni ei Amcanion Lles, sicrhau gwerth am arian a gwella lles ei dinasyddion. Byddai swyddogion yn defnyddio allbynnau'r gwaith ymgysylltu i lywio'r datblygiad gan gynnwys fformat, cynnwys a chyflwyniad cynlluniau'r Cyngor, adroddiadau a mewnwelediadau data i gefnogi Aelodau yn well yn eu rolau. Roedd hyn wedi'i lywio gan adborth a gafwyd yn flaenorol gan Aelodau etholedig, yn enwedig ynghylch cynhyrchu a chraffu ar gynlluniau gwasanaeth.

Dywedodd yr Arweinydd fod monitro perfformiad bob amser wedi bod yn uchel ar agenda Cyngor Bro Morgannwg ond y byddai'n helpu i gryfhau ymhellach y trefniadau perfformiad presennol er mwyn galluogi'r Cyngor i fodloni'r gofynion perfformiad newydd.

Dywedodd y Cynghorydd Williams ei bod yn dda cael trosolwg o'r adroddiadau a oedd yn dod drwodd, bod Aelodau'r Cabinet wedi bod yn ymwneud â heriau gan gymheiriaid ac yn edrych ar feysydd gwaith Cyfarwyddwyr. Roedd yn falch y byddai hyn yn parhau drwy gydol y flwyddyn.

Cytunodd yr Arweinydd ei bod yn bwysig deall sut roedd yr holl adroddiadau amrywiol yn gysylltiedig â'r gwahanol Gynlluniau Gwasanaeth.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Mae'r Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) CYMERADWYO Calendr Perfformiad Blynyddol Bro Morgannwg 2022/23 a'r dull arfaethedig o ymgysylltu ag Aelodau yn ystod y flwyddyn i lunio a mireinio'r Calendr Perfformiad Blynyddol a phrosesau, cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig i alluogi'r Cyngor i fodloni'r gofynion perfformiad newydd.

(4) CYFEIRIO'r adroddiad i'r holl Bwyllgorau Craffu ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w ystyried, gydag unrhyw sylwadau i'w cyfeirio'n ôl i'r Cabinet. Pe na bai'r Pwyllgor Craffu yn gwneud unrhyw sylwadau pellach, byddai'r Cabinet yn ystyried y Calendr Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2022/23 fel y cytunwyd.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau'n llawn dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (LlCD) a Deddf Llywodraeth Leol

ac Etholiadau (Cymru) 2021 i gyhoeddi amcanion lles blynyddol, parhau i adolygu perfformiad ac ymgynghori ac adrodd ar ein perfformiad drwy hunanasesiad blynyddol yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol flaenorol.

(2) Sicrhau bod pob Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Adran 114 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021) yn goruchwylio'r Calendr Perfformiad Blynyddol ac mae eu barn yn llywio dull y Cyngor o fodloni'r gofynion perfformiad newydd.

C38 CYNLLUN TAIR BLYNEDD CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD 2022 – 2024 (WCA) (CRAFFU - AMGYLCHEDD AC ADFYWIAD) -

Roedd Adran 41 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn manylu ar ddyletswydd gyfreithiol y Cyngor fel awdurdod priffyrdd i gynnal a chadw priffyrdd ar draul y cyhoedd.

Roedd Cynllun Tair Blynedd Ailosod Wyneb Ffyrdd 2022 – 2024 gan yr adran Cynnal a Chadw Priffyrdd yn darparu'r sylfaen ar gyfer darparu prifforddd wedi'i chynnal a'i chadw a'i rheoli'n dda a oedd yn hanfodol i gynnal anghenion economaidd, cymdeithasol a thrafnidiaeth Bro Morgannwg.

Roedd y Cynllun Ailosod wyneb ffyrdd arfaethedig wedi'i atodi yn Atodiad A i'r adroddiad gyda ffyrdd blaenoriaeth a nodwyd gan Beirianwyr Priffyrdd y Cyngor fel rhai sydd angen triniaeth. Roedd yr holl ffyrdd a restrir yn y Cynllun ar gyfer ailosod wyneb wedi'u hasesu dros y 12 mis diwethaf yn unol â'r 'System Sgorio Blaenoriaethu Ailosod wyneb y lôn gerbydau' fel y nodir yn Atodiad B i'r adroddiad a byddai'n cael ei thrin ym mlwyddyn ariannol 2022/2023.

Roedd y ffyrdd a restrwyd ar gyfer Gorchuddio Asffalt Micro a Dresin Wyneb yn driniaethau ataliol a bennwyd gan asesiad peirianydd yn unig ac a restrir yn Atodiad A.

Byddai'r dyraniad o'r gyllideb ar gyfer 2022/23 yn cael ei wario ar dri math o driniaeth ar lonydd cerbydau, sef Ailosod wyneb, Dresin ar Wyneb ac Asffalt Micro yn unol â'r rhestr flaenoriaethau yn y Cynllun. Rhagwelwyd y byddai'r gyllideb sydd ar gael o £2.3miliwn (2022/23) yn galluogi gosod wyneb newydd ar ffyrdd sy'n sgorio cyfanswm o 210 pwynt neu uwch ar y Cynllun ar gyfer 2022/23.

Byddai'r ffyrdd hynny a restrir yn Atodiad A na dderbyniodd waith eleni yn cael eu cynllunio i'w cwblhau yn y flwyddyn ariannol nesaf, yn amodol ar gyllid digonol. Roedd y ffyrdd hynny a restrwyd heb unrhyw sgoriau yn eu herbyn wedi'u hychwanegu at y Cynllun yn dilyn atgyfeiriadau gan randdeiliaid a byddent yn cael eu hadolygu ar ôl eu hasesu, eu sgorio a'u hystyried wrth adolygu'r Cynllun.

Pe bai cyflwr unrhyw briffordd yn golygu bod angen rhoi sylw iddo ar unwaith, awgrymwyd y dylid rhoi pwerau dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu, i ddiwygio'r Cynllun.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet y byddai ardaloedd ar y Matrics Sgorio Cynnal a Chadw Priffyrdd gyda sgôr o lai na 210 yn dal i gael eu hystyried a'u hailasesu i weld beth y gellid ei flaenoriaethu. Roedd modd ailasesu'r gwaith gan y gallai'r tywydd gael effaith ar gyflwr ffyrdd. Roedd y gyllideb refeniw o £200k ar gyfer atgyweirio troedffyrdd yn bwysig er mwyn hyrwyddo teithio llesol yn y gymuned.

Croesawodd y Dirprwy Arweinydd gynnwys teithio llesol fel rhan o'r cynllun tair blynedd gan ei fod yn gysylltiedig â Chynlluniau Teithio Llesol y Cyngor.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Mae'r Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad, yr holl faterion a'r goblygiadau sydd ynddo a nodi'r gwelliannau i Atodiad A, a -

WEDI PENDERFYNU -

(1) NODI cynnwys Cynllun Ailosod Wyneb Ffyrdd Tair Blynedd 2022 - 2024 gan yr adran Cynnal a Chadw Priffyrdd fel sydd wedi'i atodi yn Atodiad A i'r adroddiad a chytuno ar y lleoliadau blaenoriaeth ar gyfer ailosod wyneb ffyrdd.

(2) AWDURDODIR Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai i ddiwygio'r Cynllun, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaethau ac Adeiladu, pe bai blaenoriaethau brys i osod wyneb newydd ar y briffordd yn cael eu nodi.

(3) BOD y mater yn cael ei gyfeirio at Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio Gorffennaf 2022 i'w ystyried.

(4) BOD, yn amodol ar unrhyw sylwadau a fyddai'n effeithio ar y Cynllun fel y'i cynigiwyd gan Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio, Cynllun Tair Blynedd Ailosod Wyneb Ffyrdd 2022 i 2024 gan yr adran Cynnal a Chadw Priffyrdd yn cael ei gytuno.

(5) BOD y meini prawf ar gyfer sgorio ffyrdd yn y dyfodol yn cael eu hadolygu er mwyn ystyried materion fel Teithio Llesol a llwybrau eraill a allai gael eu defnyddio'n dda gan feicwyr.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Cytuno ar y Cynllun a lleoliadau blaenoriaeth mewn egwyddor.

(2) Er mwyn delio'n effeithlon â newidiadau yn y Cynllun pe bai llwybrau priffyrdd eraill yn dirywio'n gyflymach na'r disgwyl neu fod cyfyngiadau'n mynnu bod angen newid blaenoriaeth er mwyn sicrhau'r defnydd mwyaf cost-effeithiol o ddyraniad y gyllideb yn 2022/23.

(3) Sicrhau y gallai'r Pwyllgor Craffu perthnasol ystyried manylion Cynllun Tair Blynedd Ailosod Wyneb ar y Briffordd 2022 i 2024 cyn iddo gael ei gytuno'n ffurfiol.

(4) Er mwyn galluogi'r Cynllun terfynol i gael ei gymeradwyo ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu perthnasol, ni ddylid derbyn unrhyw sylwadau sy'n effeithio ar y Cynllun fel y'i cynigiwyd.

(5) Sicrhau bod y meini prawf asesu yn y dyfodol yn ystyried yr holl ffactorau defnyddio priffyrdd berthnasol.

(5) To ensure that the future assessment criteria took into account all relevant highway use factors.

C39 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD BRO MORGANNWG 2021 – 2036: ADRODDIAD CWMPASU ARFARNIAD O GYNALIADWYEDD INTEGREDIG DRAFFT (YGCGR) (CRAFFU - AMGYLCHEDD AC ADFYWIAD) -

Ar 19 Hydref, 2020, cymeradwyodd y Cabinet argymhelliad i gychwyn adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) mabwysiedig cyn 28 Mehefin, 2021. Cam cyntaf proses y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) oedd cynhyrchu'r Cytundeb Cyflawni (CC) a oedd yn cynnwys yr amserlen ar gyfer paratoi'r CDLlN ynghyd â'r Cynllun Cynnwys y Gymuned (CCG) a oedd yn nodi sut a phryd y gallai rhanddeiliaid a'r gymuned ymgysylltu â'r broses o lunio'r cynllun. Cymeradwywyd y Cytundeb Cyflawni'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru ar 4 Mai, 2022.

Roedd y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygu cynaliadwy fod wrth wraidd proses y cynllun datblygu ac roedd gofyniad statudol i'r CDLlN fod yn destun arfarniadau ac asesiadau penodol i fodloni'r gofyniad. Bodlonwyd y gofyniad cyfreithiol hwn drwy gynhyrchu Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig (ACI) a oedd yn ceisio nodi effeithiau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol sylweddol tebygol y cynllun sy'n dod i'r amlwg, ac awgrymodd fesurau i leihau unrhyw effeithiau negyddol a sicrhau'r effeithiau cadarnhaol mwyaf posibl.
effects.

Paratoi'r Adroddiad Cwmpasu oedd cam cyntaf y broses ACI. Roedd yr Adroddiad Cwmpasu yn gam casglu tystiolaeth i raddau helaeth ac yn nodi'r cyd-destun lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol presennol gan gynnwys data llinell sylfaen a materion cynaliadwyedd a nodwyd a oedd yn berthnasol i'r ardal leol. Roedd Adroddiad Cwmpasu ACI drafft wedi'i baratoi ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd. Amlinellodd yr adroddiad brif elfennau'r Adroddiad Cwmpasu drafft a gofynnodd am gymeradwyaeth y Cabinet i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn unol â'r rheoliadau.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod y dull cynaliadwy yn gysylltiedig â'i Phortffolio ac yn pwysleisio pwysigrwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer gwaith y Cyngor wrth symud ymlaen. Roedd hefyd yn edrych ymlaen at weld canlyniadau'r ymgynghoriad.

Dywedodd yr Aelod Cabinet, ar yr amod bod y Cabinet yn cymeradwyo Adroddiad Cwmpasu drafft yr ACI, y byddai'n destun ymgynghoriad cyhoeddus 5 wythnos rhwng mis Awst a mis Medi 2022 pan fyddai pob parti â diddordeb (gan gynnwys rhanddeiliaid allweddol ac aelodau o'r cyhoedd) yn cael cyfle i roi sylwadau arno.

Gofynnodd yr Arweinydd a fyddai papurau briffio'n cael eu trefnu ar gyfer Aelodau yn y dyfodol agos. Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai papur briffio yn edrych ar strategaeth y Cyngor fel rhan o broses cyn-ymgynghori, ond a oedd ar wahân i'r prif ymgynghoriad.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Mae'r Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD yr Adroddiad Cwmpasu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig drafft yn cael ei gymeradwyo at ddibenion ymgynghori â'r cyhoedd.

(2) BOD ymgynghoriad cyhoeddus 5 wythnos yn cael ei gynnal ar yr Adroddiad Cwmpasu Gwerthuso Cynaliadwyedd Integredig Drafft.

(3) BOD adroddiad dilynol ar ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus ac unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael eu paratoi a'u hystyried gan y Cabinet.

(4) Y RHODDIRr awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Lleoedd, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio, i wneud newidiadau teipograffig neu fân newidiadau eraill i'r Adroddiad Cwmpasu drafft yn ôl yr angen cyn ei gyhoeddi.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Cydymffurfio ag adran 39 (2) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Strategol 5 (2) a 5 (4).

(2-3) Cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol, Erthygl 5 (4) a 6 (3).

(4) Er mwyn galluogi newidiadau teipograffig neu fân newidiadau eraill yn ôl yr angen heb yr angen i ofyn am gymeradwyaeth y Cabinet.